

# MAE'N AMSER CYSTADLU!

## Croeso i'r Pecyn Cystadlu Rhanbarthol

GORNEST LYFRAU 2026

# CROESO I BECYN CYSTADLU RHANBARTHOL GORNEST LYFRAU 2026!

## Mae'r ORNEST LYFRAU yn ôl!

Ymunwch â'r hwyl o gystadlu yng nghystadleuaeth ddarllen flynyddol Cymru sy'n gwahodd plant o **Flynyddoedd 3–6** i ddarganfod byd cyffrous llyfrau. Drwy gyfres o sialensau hwyliog a chreadigol, caiff darllenwyr ifanc gyfle i gael eu coroni'n **bencampwyr Gornest Lyfrau 2026**.

Gwobrau Gornest Lyfrau 2026:

Gwobr 1af – gwerth £200 mewn llyfrau a thlws Gornest Lyfrau (a hawl brolio!)

2il wobr – gwerth £150 mewn llyfrau

3edd wobr – gwerth £100 mewn llyfrau

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth ar gyfer cystadlu yn **sialensau** y gystadleuaeth. Bydd eich **cydlynydd rhanbarthol** ar gael i'ch cefnogi drwy'r cam yma o'r gystadleuaeth.

GORNEST LYFRAU 2026

Barod amdani?

# SUT MAE'N GWEITHIO

## (mewn 4 cam hawdd!)

Cofrestru ar agor nawr ...

**CAM 1**
Cofrestrwch eich ysgol ar gyfer y rowndiau rhanbarthol.

Amser darllen!

**CAM 2**
Dewiswch lyfr i'w ddarllen o restr lyfrau'r Ornest.

Barod am sialens?

**CAM 3**
Cystadlu yn sialensau rhanbarthol yr Ornest.

y rowndiau cenedlaethol!

**CAM 4**
Os ydych yn ennill yn y rowndiau rhanbarthol, yna byddwch yn cystadlu yn y rowndiau cenedlaethol yn Aberystwyth.



# CYN I CHI DDECHRAU...

## Mae angen i chi ddewis llyfr addas ar gyfer eich tîm o restr ddarllen swyddogol yr Ornest Lyfrau...

Un o gamau pwysicaf y broses o gystadlu yn yr **Ornest Lyfrau** yw dewis llyfr addas o **restr ddarllen swyddogol** y gystadleuaeth. Mae ystod eang o gyfrolau anhygoel yn y rhestr, ac mae dewis cyfrol addas yn hollbwysig ar gyfer cyffroi'r timau sy'n cystadlu!

Bydd pob tîm yn cystadlu mewn **dwy sialens ranbarthol**, sef:

**Y rownd drafod** – bydd disgyblion yn archwilio a thrafod themâu, cymeriadau a digwyddiadau'r gyfrol maen nhw wedi ei dewis.
**Creu hysbyseb fideo** – bydd angen i ddisgyblion gynhyrchu hysbyseb fideo yn hyrwyddo'r llyfr o'u dewis, a hynny mewn ffordd greadigol ac atyniadol.

**Nodyn pwysig!**
Does dim rhaid i athrawon a disgyblion ddewis yr un llyfr ar gyfer y ddwy sialens. Gallwch ddewis un llyfr ar gyfer y sialens drafod a llyfr gwahanol i'r sialens hysbyseb fideo.

Gallwch hefyd rannu'r dosbarth yn **sawl tîm**. Does dim rhaid i'r timau ddewis yr un llyfr ar gyfer y sialensau

### Sut i ddewis y llyfr cywir i chi:

- Ystyriwch lefelau darllen y disgyblion, eu diddordebau, a'r hyn sy'n debygol o'u denu at y llyfrau.
- Dewiswch lyfrau sy'n cynnig digon o bwyntiau difyr i'w trafod neu elfennau cyffrous ar gyfer syniadau i greu fideo creadigol.
- Gallwch rannu'r dosbarth yn sawl tîm gwahanol, gyda phob tîm yn dewis llyfr gwahanol yn yr un sialens.
- Ystyriwch ffactorau megis yr amser sydd gennych chi i ddarllen y llyfrau, a ydych chi'n bwriadu darllen y llyfrau gyda'ch gilydd fel dosbarth neu a fydd y disgyblion yn eu darllen ar eu liwt eu hunain.

# Y SIALENSAU RHANBARTHOL

## Sialens 1: Y rownd drafod

Croeso i sialens gyntaf Gornest Lyfrau 2026! Mae'r rownd drafod am brofi eich gallu i gymryd rhan mewn trafodaeth dreiddgar ac ystyriol am lyfr o'ch dewis o restr ddarllen yr Ornest Lyfrau.

**Beth yw'r sialens?**

1. **Dewiswch lyfr** o restr ddarllen Gornest Lyfrau 2026. (Dylech chi fod wedi derbyn y rhestr ym mhecyn athrawon yr Ornest Lyfrau.)
2. **Darllenwch y llyfr** – un ai fel dosbarth cyfan neu mewn grwpiau llai.
3. **Ffurfiwch dimau o 4 disgybl** i gymryd rhan yn y sialens drafod. Mae gofyn i bob aelod o'r tîm fod wedi darllen y llyfr ac wedi paratoi i drafod yr un llyfr.

**Nodyn:** Cofiwch y gallwch chi gystadlu yn y sialens gyda mwy nag un tîm o'ch dosbarth. Gall bob tîm ddewis llyfr gwahanol o'r rhestr ddarllen os y dymunant.

**Beirniadu'r drafodaeth**

Bydd beirniad rhanbarthol yn ymuno â'ch tîm o bedwar i wrando ar eich trafodaeth a rhoi sgôr. Gall y beirniad ymuno â chi:


- Drwy **ymweld** â'ch ysgol, neu
- Ymuno â **galwad fideo ar-lein**

I gofrestru eich timau, sicrhewch eich bod chi'n cysylltu â'ch **cydlynydd rhanbarthol** a nodi'r nifer o dimau fydd yn cystadlu o'ch ysgol chi.

**Tips cystadlu!**

**Sicrhewch** fod pawb yn eich tîm yn cymryd rhan yn y sgwrs!
**Sicrhewch** fod gan eich tîm ddigon o wybodaeth am y llyfr i allu cynnal sgwrs o oddeutu 8 munud.

**Peidiwch** â dysgu 'sgript' ymlaen llaw! Bydd y beirniad yn awyddus i glywed trafodaeth naturiol am y gyfrol, nid pwyntiau trafod wedi eu dysgu ymlaen llaw!



**Beth fydd yn cael ei feirniadu?**

Bydd y beirniad rhanbarthol yn ystyried y pwyntiau canlynol wrth roi sgôr:

- Dealltwriaeth drwyadl o'r llyfr, gan gynnwys eich gallu i drafod stori a chymeriadau'r llyfr, os yw'n berthnasol
- Dealltwriaeth dda o negeseuon a themâu'r gyfrol
- Gallu eich tîm i fynegi barn yn glir a theg, gyda'r gallu i holi, cytuno ac anghytuno yn gwrtais
- Dangos defnydd da o eirfa, ymadroddion a therminoleg llyfrau
- Unrhyw sôn am lyfrau eraill os yw'n berthnasol

**Sgorio**


Bydd y sialens drafod yn cyfrannu 50% tuag at eich sgôr ranbarthol!




**Esiamplau o bwyntiau trafod**

- Oedd unrhyw beth penodol yr oeddech chi'n ei fwynhau neu ddim yn ei fwynhau am/yn y llyfr?
- Pa gymeriad oeddech chi'n meddwl oedd fwyaf diddorol? Ym mha ffordd? Pam?
- Beth ddaliodd eich sylw am/yn y llyfr?
- Ydych chi wedi darllen unrhyw lyfrau fel hyn o'r blaen?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr?
- I bwy ydych chi'n meddwl y mae'r llyfr hwn yn addas?
- Sut fyddech chi'n disgrifio'r llyfr hwn i rywun o'ch oedran? A fyddech chi'n ei argymell?
- Pe gallech chi gwrdd ag un cymeriad o'r llyfr, pwy hoffech chi ei gyfarfod? Pam?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu wrth ddarllen y llyfr hwn?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi ar ôl darllen y llyfr hwn? Ydych chi wedi dod o hyd i atebion i'r cwestiynau hynny? Beth oedd yr atebion?
- Pam mae darllen llyfrau ffeithiol yn wahanol i ddarllen llyfrau ffuglen?
- Beth yw'r peth pwysicaf am y llyfr hwn yn eich barn chi?







## Sialens 2: Creu hysbyseb fideo

Bydd yr ail sialens ranbarthol yn gofyn i'ch dosbarth greu hysbyseb fideo fer i annog plant eraill o'r un oed i ddarllen y llyfr.

**Beth yw'r sialens?**

Cynhyrchwch **hysbyseb fideo** sydd yn:

- Dangos eich dealltwriaeth o'r llyfr
- Apelio at blant o'r un oedran
- Annog eraill i ddarllen y llyfr

Hyd y fideo: Ni ddylai'r fideo fod yn fwy na 3 munud o hyd.
*Nodyn: Caiff 1 marc ei dynnu oddi ar eich sgôr am bob 30 eiliad aiff y fideo dros 3 munud.*



**Creu eich hysbyseb fideo**

- Byddwch yn greadigol! Gallwch ddefnyddio hiwmor, drama neu unrhyw dechnegau eraill i hyrwyddo'ch llyfr.
- Gall plant o Flynyddoedd 3–6 gyfrannu.
- Cofiwch y gall disgyblion gymryd rhan mewn sawl ffurf o actio, sgriptio, ffilmio, golygu neu berfformio.

## Syniadau i'ch fideo

Beth am rai o'r syniadau hyn fel ysbrydoliaeth i'ch hysbyseb?


- Perfformiwch olygfa o'r llyfr
- Ffilmiwch mewn lleoliadau amrywiol neu ddefnyddio props creadigol
- Defnyddiwch effaith sgrin werdd i fynd â chi i fydoedd newydd!
- Ychwanegwch gerddoriaeth neu effeithiau sain

*Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio meddalwedd golygu fideo syml – ond peidiwch â phoeni, ni fydd ansawdd technegol y golygu yn cael ei feirniadu.*

*Rhaid cyflwyno eich fideo mewn fformat MP4.*

## Tips i gynhyrchu'ch fideo

**Cadwch** eich fideo o dan 3 munud o hyd
**Siaradwch** yn eglur, yn hyderus a gyda digon o egni!
**Defnyddiwch** iaith berswadiol ac effeithiau dramatig
**Gweithiwch** fel tîm fel bod pawb yn gallu cyfrannu
**Dangoswch** themâu'r llyfr yn y fideo
**Peidiwch** â phoeni am olygu i safon uchel yn dechnegol – hysbyseb greadigol a brwdfrydig sy'n cyfrif!



## Beth fydd yn cael ei feirniadu?

Bydd y beirniad yn edrych am hysbyseb sydd yn:

- **Dal ymdeimlad y llyfr** ac yn annog eraill i'w ddarllen
- Dangos **brwdfrydedd ac egni**
- Dangos y gallu i **siarad yn hyderus ac yn eglur**
- Defnydd o **iaith bwrpasol** sy'n pwysleisio themâu a syniadau o'r llyfr
- Dangos **gwaith tîm** a **chynnwys pawb**
- Darn o waith sy'n **apelgar i'r gwyliwr** o'r dechrau i'r diwedd.

## Chwilio am ysbrydoliaeth?

Beth am gymryd golwg ar **hysbysebion buddugol y llynedd:**

## Cyflwyno eich fideo

- Cyflwynwch eich fideo terfynol ar ffurf MP4 i'ch beirniad a'ch cydlynydd rhanbarthol

## Sgorio

- Bydd y sialens drafod yn cyfrannu **50%** tuag at eich sgôr ranbarthol!

# DYDDIADAU PWYSIG

Angen rhagor o wybodaeth?
Cysylltwch â chydlynydd Gornest Lyfrau
drwy ebostio **plant@llyfrau.cymru**

## ION 1 – MAI 15

Rowndiau rhanbarthol yn digwydd ar draws Cymru. Bydd eich trefnydd sirol yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ar gyfer y Rownd Drafod a dyddiad i chi anfon eich Hysbyseb Hyrwyddo atynt.

Trefnwyr sirol i hysbysebu'r Cyngor Llyfrau o'r canlyniadau sirol erbyn **MAI 20**

Blynyddoedd 3–4

## MEHEFIN 17

y rownd derfynol yn digwydd yn Theatr Arad Goch, Aberystwyth.

Blynyddoedd 5–6

## MEHEFIN 18

y rownd derfynol yn digwydd yn Aberystwyth.

# GORNEST LYFRAU 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Wedi'i drefnu a'i gydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru